WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

12 Ebrill 2006
www.wao.gov.uk

# A yw'r GIG yng Nghymru yn ymdopi o fewn yr adnoddau ariannol sydd ar gael iddo?



ⓗ Archwilydd Cyffredinol Cymru 2006

Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth. Mae'n archwilio ac yn gwirio ac yn ardystio cyfrifon y Cynulliad a chyrff cyhoeddus a noddir gan, neu sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad, gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Hefyd, mae ganddo'r hawl statudol i wneud adroddiad ar gynildeb, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y cyrff hynny ac i wella'u defnydd o adnoddau wrth gyflawni'u dyletswyddau.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal a hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn archwilio cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau dan Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Fodd bynnag, er mwyn diogelu safle cyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'r adrodd yn ôl yn benodol i'r Cynulliad ar y gwaith llywodraeth leol hwn.

Yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, byddwch cystal ag ysgrifennu at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod; ffôn 029 2026 0260, e-bost: wales@wao.gov.uk, neu ymwelwch â'r wefan http://www.wao.gov.uk

Adroddiad a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 12 Ebrill 2006.

Mae'r angen i fynd i'r afael ag anawsterau ariannol yn y byrdymor yn cyfyngu'r GIG yng Nghymru rhag datrys rhai diffygion sylfaenol hirsefydlog, mewn modd cynaliadwy.



# Cynnwys


## Crynodeb

Argymhellion 5

## Adroddiad Manwl 7

Cyflawnodd cyrff y GIG yng Nghymru eu dyletswyddau ariannol statudol yn ystod 2004/2005 7

Mae nifer o gyrff y GIG yng Nghymru yn rhagweld efallai na fyddant yn cyflawni eu dyletswyddau ariannol statudol yn ystod 2005/2006 8

Dengys arwyddion presennol y bydd y sefyllfa yn mynd yn llawer anos i GIG Cymru yn ystod 2006/2007 11

Gellir cwestiynu pa un a fu cysylltiadau effeithiol rhwng cyfeiriad strategol y GIG yng Nghymru, y broses o weithredu cynlluniau lleol i gyfeirio adnoddau yn well yn y tymor canolig i gydfynd â gofynion gwasanaeth (SCEPs) a threfniadaur Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid blynyddol (SaFF) 13



# Crynodeb

## Cyflawnodd cyrff y GIG yng Nghymru eu dyletswyddau ariannol statudol yn ystod 2004/2005

**1** Cyflawnodd Ymddiriedolaethau eu targedau statudol ar gyfer mantoli'r gyllideb ond roedd gan rai fenthyciadau sylweddol sy'n ad-daladwy erbyn 2009.

**2** Cyrhaeddodd Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) eu terfynau adnoddau ar gyfer y flwyddyn ond mae rhai wedi derbyn broceriaeth adnoddau ad-daladwy hefyd sy'n erbyn 2009.

**3** Cyflawnodd Comisiwn Iechyd Cymru (y Comisiwn) ei darged ariannol ond dim ond ar ôl i £10.2 miliwn ychwanegol gael ei ddarparu tra bo'r gwaith o baratoi Cynllun Newid Strategol ac Effeithlonrwydd (SCEP) yn mynd rhagddo er mwyn mantoli'r gyllideb ac adfer gwasanaethau.

## Mae nifer o gyrff y GIG yng Nghymru yn rhagweld efallai na fyddant yn cyflawni eu dyletswyddau ariannol statudol yn ystod 2005/2006

**4** Mae BILlau yn rhagweld y byddant, gan fwyaf, yn cyrraedd eu terfynau adnoddau ar gyfer 2005/2006.

**5** Mae'r rhan fwyaf o ymddiriedolaethau'r GIG yn rhagweld na fyddant yn mantoli'r gyllideb yn ystod 2005/2006.

**6** Mae'r Comisiwn yn rhagweld diffyg o £9.9 miliwn ar gyfer y flwyddyn, ar ôl ystyried arian cymorth strategol pellach o £10 miliwn.

**7** Er y rhagwelir sefyllfa lle bydd diffyg cyffredinol sylweddol ar gyfer diwedd 2005/2006, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod digon o adnoddau hylifol o fewn y GIG yng Nghymru er mwyn i gyrff iechyd lleol gyflawni eu hymrwymiadau dyddiol.

## Dengys arwyddion presennol y bydd y sefyllfa yn llawer anos i GIG Cymru yn ystod 2006/2007

**8** Ym mis Rhagfyr, rhagwelir y bydd cyff y GIG yng Nghymru mewn diffyg o ryw £22 miliwn erbyn diwedd 2005/2006. Yn ogystal, rhagwelir diffyg sy'n agos at £10 miliwn ar gyfer y Comisiwn. Os na reolir yr anawsterau rhagweledig ar gyfer 2005/2006 yn llwyddiannus, byddant yn ychwanegu at yr her yn ystod 2006/2007.

**9** Mae cysondeb y rhagolygon ariannol wedi amrywio yn ystod y flwyddyn a nodwyd rhai newidiadau sylweddol gan rai cyrff unigol yn ystod y cyfnod hyd at fis Rhagfyr 2005. Mae hyn yn cwestiynu cadernid y rhagolygon ariannol mewn rhai rhannau o'r gwasanaeth.

**10** O 2006/2007 ymlaen, mae'n ofynnol hefyd i rai ymddiriedolaethau a BILlau fodloni gofynion ad-dalu benthyciadau neu froceriaeth ad-daladwy, a fydd yn rhoi pwysau ariannol ychwanegol ar y sefydliadau hynny sydd â diffygion sylfaenol.

**11** Mae'r cynnydd yn y dyraniad dewisol i'r Gwasanaethau Ysbyty a Gwasanaethau Iechyd Cymunedol ar gyfer 2006/2007 yn cydnabod pwysau cost sydd ar droed megis cynnydd mewn pris ynni. Fodd bynnag, mae Cyfarwyddwyr Cyllid Ymddiriedolaethau'r GIG yn honni na fydd y cynnydd cyffredinol o 4.5% yn ddigon i fodloni'r pwysau cost disgwyliedig na ellir eu hosgoi.

Gellir cwestiynu pa un a fu cysylltiadau effeithiol rhwng cyfeiriad strategol y GIG yng Nghymru, y broses o weithredu cynlluniau lleol i gyfeirio adnoddau yn well yn y tymor canolig i gydfynd â gofynion gwasanaeth (SCEPs) a threfniadau'r Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid blynyddol (SaFF)

**12** Mae gan y GIG yng Nghymru gyfeiriad sydd wedi'i arwyddo'n glir yn 'Cynllun Oes'. Efallai y bydd yr angen i fodloni gorchmynion ariannol byrdymor heb strategaethau ariannol cysylltiedig sydd wedi eu prisio'n llawn yn rhwystro'r graddau y gellir cyflawni'r bwriadau strategol hyn yn sylweddol a chyflymder y broses honno.

**13** Nid yw SCEPs blaenorol, a roddwyd ar waith i fantoli cyllideb ac adfer gwasanaethau'r cymunedau iechyd, wedi cyflawni eu hamcanion yn llawn. Gan ystyried y methiannau hyn, mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, mae effeithiolrwydd y cynigion adfer hyn yn ddadleuol.

**14** Mae effeithiolrwydd proses cytundeb SaFF 2005/2006 hefyd yn amrywio. Mae'r cylch blynyddol o bennu SaFF ar gyfer y GIG yng Nghymru yn ddull pwysig o egluro blaenoriaethau gweinidogion. Fodd bynnag, ledled Cymru, ymestynnwyd cytundeb SaFF. Er bod pob SaFF 2005/2006 ledled Cymru wedi ei gymeradwyo, roedd llawer ohonynt yn cynnwys risgiau ariannol heb eu datrys ar adeg y cytundeb.

**15** Deallaf fod trefniadau ar waith er mwyn i ganlyniadau adolygiadau gwasanaeth sydd ar fin cael eu cyhoeddi gael eu hymgorffori o fewn y broses SCEP yn y dyfodol. Yn dilyn hyn, bydd angen i gynlluniau manwl cadarn gael eu paratoi ar fyrder a pherfformiad gweithredu gael ei reoli gan roi sylw clir i atebolrwydd am ddarparu. Hefyd, rhaid i'r fframwaith rheoli a roddwyd ar waith, tra'n cynnal atebolrwydd am ddarparu gwasanaeth a chyllid effeithiol, fod yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer diwygiadau i'r SCEPs a allai godi yn sgîl newidiadau polisi neu ganlyniadau adolygiadau cenedlaethol a rhanbarthol yn y dyfodol.

## Argymhellion

**Argymhellion**

1. Dylid cynnal dadansoddiad o'r rhesymau dros beidio â chyflwyno SCEPs blaenorol cyn cytuno ar gynlluniau ar gyfer y dyfodol.
2. Lle y bo'n berthnasol, dylai SCEPs newydd ystyried effaith bosibl adolygiadau gwasanaeth a ddylai fod yn rhan o'r asesiad risgiau a'r trefniadau rheoli sy'n ofynnol fel rhan o'r broses o gynhyrchu a monitro SCEP.
3. Dylid ymdrechu i gytuno ar SaFFs yn fwy amserol a dim ond lle bo cynlluniau clir ac atebolrwydd am reoli risgiau sydd dros ben y dylid cymeradwyo'r rhain.
4. Dylid cynnal asesiad safonol o ansawdd ac effeithiolrwydd perfformiad a rheoli ariannol ar draws GIG Cymru.



# Adroddiad Manwl

## Cyflawnodd cyrff y GIG yng Nghymru eu dyletswyddau ariannol statudol yn ystod 2004/2005

**16** Cyflawnodd ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru eu dyletswyddau ariannol statudol ar gyfer 2004/2005. Mae nifer yn gorfod dilyn cynlluniau adfer ariannol ac, o dan drefniadau y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, roedd hawl ganddynt weithredu mewn diffyg yn unol â'r paramedrau ariannol a nodwyd mewn SCEPs. Bwriad y rhain oedd mantoli'r gyllideb ac adfer gwasanaethau ar gyfer rhai cymunedau iechyd. Roedd cyfanswm y diffyg a nodwyd gan ymddiriedolaethau o dan y trefniadau hyn bron yn £9 miliwn. (Arddangosyn 1).

**17** Cyrhaeddodd cyrff comisiynu'r GIG yng Nghymru eu terfynau adnoddau ar gyfer y flwyddyn. O fewn y cyflawniad cyffredinol hwn, derbyniodd Comisiwn Iechyd Cymru (y Comisiwn) fwy na £10 miliwn o Arian Cymorth Strategol tra bo SCEP wrthi'n cael ei ddatblygu er mwyn mantoli'r gyllideb ac adfer gwasanaethau.

**18** Fel ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd gan ymddiriedolaethau yng Nghymru fenthyciadau o fwy na £50 miliwn. O'r swm hwn, mae tua £36 miliwn yn ad-daladwy yn ystod y cyfnod 2006/2007 hyd at 2008/2009 fel rhan o SCEPs y cytunwyd arnynt yn flaenorol. Caiff yr £17 miliwn sy'n weddill ei ddileu pan fydd yr ymddiriedolaethau dan sylw yn bodloni'r amodau a nodwyd mewn cytundebau benthyciadau blaenorol. (Arddangosyn 2 drosodd).

Arddangosyn 1: Alldro Ymddiriedolaethau'r GIG 2004/2005

| Ymddiriedolaeth y GIG | Surplus/(deficit) £000 |
|---|---|
| Bro Morgannwg | 53 |
| Caerdydd a'r Fro | (1,955) |
| Sir Gaerfyrddin | (4,471) |
| Ceredigion Chanolbarth Cymru | (516) |
| Conwy a Sir Ddinbych | 13 |
| Gofal Iechyd Gwent | (74) |
| Gogledd-Ddwyrain Cymru | 1 |
| Gogledd Morgannwg | (22) |
| Gogledd-Orllewin Cymru | 4 |
| Sir Benfro a Derwen | (2,290) |
| Pontypridd a'r Rhondda | 149 |
| Abertawe | 7 |
| Felindre | 4 |
| Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 111 |
| Cyfanswm | (8,986) |

**19** Fel ar ddiwedd 2004/2005, roedd cyrff comisiynu wedi derbyn £32 miliwn o froceriaeth adnoddau ad-daladwy. O'r swm hwn, mae disgwyl i BILlau ad-dalu ychydig dros £2 filiwn yn ystod 2005/2006, gyda bron £20 miliwn yn ddyledus i'w ad-dalu yn ystod y cyfnod rhwng 2006/2007 a 2008/2009. Ni phenderfynwyd ar y telerau ad-dalu ar gyfer y £10 miliwn sy'n weddill (a ddelir gan y Comisiwn) hyd yma. (Arddangosyn 3 drosodd).

## Mae nifer o gyrff y GIG yng Nghymru yn rhagweld efallai na fyddant yn cyflawni eu dyletswyddau ariannol statudol yn ystod 2005/2006

20 Ar gyfer 2005/2006, disgwylir i bob ymddiriedolaeth y GIG ac eithrio ymddiriedolaeth Caerdydd a'r Fro a phob BILl fantoli eu gwariant â'u hincwm. Cafodd Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro fenthyciad bach yn ystod y flwyddyn fel rhan o'i

### Arddangosyn 2: Benthyciadau Ymddiriedolaethau'r GIG sy'n ddyledus ar 31 Mawrth 2005

| Ymddiriedolaeth GIG | Cyfanswm benthyciadau £000 | Benthyciadau newydd 2005/2006 £000 | Ad-daliadau sy'n ddyledus o 2006/2007 i 2008/2009 £000 | Benthyciadau hanesyddol (gweler nodiadau am delerau) £000 |
|---|---|---|---|---|
| Caerdydd a'r Fro | 18,236 | 1,619 | 9,676 | 10,179(1) |
| Sir Gaerfyrddin | 18,603 | 0 | 15,429 | 3,174(2) |
| Ceredigion a Chanolbarth Cymru | 2,762 | 0 | 2,268 | 494(1) |
| Sir Benfro a Derwen | 11,038 | 0 | 8,238 | 2,800(2) |
| Cyfanswm | 50,639 | 1,619 | 35,611 | 16,647 |

Nodiadau:
1. Caiff hwn ei ddileu pan fydd cyllideb yr Ymddiriedolaeth yn mantoli am 2 flynedd.
2. Caiff hwn ei ddileu pan fydd cyllideb yr Ymddiriedolaeth yn mantoli am 3 blynedd.

### Arddangosyn 3: Broceriaeth adnoddau ad-daladwy i Gomisiynwyr ar 31 Mawrth 2005

| Bwrdd Iechyd Lleol | Cyfanswm y froceriaeth £000 | Ad-daliadau sy'n ddyledus 2005/2006 £000 | Ad-daliadau sy'n ddyledus 2006/2007 i 2008/2009 £000 | Heb ei drefnu £000 |
|---|---|---|---|---|
| Caerdydd | 11,576 | 0 | 11,576 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 772 | 0 | 772 | 0 |
| Merthyr Tudful | 340 | 340 | 0 | 0 |
| Powys | 1,336 | 189 | 1,147 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 1,577 | 1,577 | 0 | 0 |
| Bro Morgannwg | 3,818 | 0 | 3,818 | 0 |
| Sir Fynwy | 1,400 | 0 | 1,400 | 0 |
| Casnewydd | 900 | 0 | 900 | 0 |
| Cyfanswm broceriaeth BILl | 21,719 | 2,106 | 19,613 | 0 |
| Y Comisiwn Gofal Iechyd | 10,364 | 0 | 0 | 10,364 |
| Cyfanswm | 32,083 | 2,106 | 19,613 | 10,364 |



SCEP cytûn. Er mwyn cyflawni eu dyletswyddau ariannol statudol, mae pob ymddiriedolaeth wedi rhoi rhaglenni gwella costau ar waith fel rhan o'u prosesau rheoli ariannol. Dywedwyd i'r rhain gyfateb i £59 miliwn ledled Cymru.

**21** Fel ar ddiwedd mis Medi 2005 (mis 6), roedd 9 o blith y 14 ymddiriedolaeth GIG yn rhagweld diffygion o bron £30 miliwn (ac eithrio'r diffyg cymeradwy o £1.619 miliwn ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro). Fodd bynnag, nid oedd y rhagamcan hwn yn adlewyrchu'n gyson effaith ariannol weddilliol gweithredu'r fenter moderneiddio tâl, sef Agenda ar gyfer Newid (yr Agenda), yn bennaf o ganlyniad i wahaniaethau amseru yn y broses o'i gweithredu mewn ymddiriedolaethau unigol. Hefyd, roedd pwysau eraill megis costau ynni cynyddol yn dechrau dod i'r amlwg ond nid oeddent yn rhan o'r rhagolygon hyn.

**22** Mae amcangyfrifon Ymddiriedolaethau o effaith ariannol yr Agenda yn fwy na lefel yr arian a ddarparwyd yn benodol at y diben hwn gan y Cynulliad. Ar eu rhan hwy, mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn bryderus ynglŷn â dibynadwyedd yr egwyddorion a ddefnyddiwyd i lunio'r amcangyfrifon hyn ac maent wedi rhoi cymorth o fewn rhai ymddiriedolaethau i ailystyried y sefyllfa. Fodd bynnag, hyd yn oed ar y dybiaeth y caiff gwahaniaethau barn ar y cyfrifiadau eu datrys wrth i'r broses weithredu fynd rhagddi, mae ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru yn debygol o wynebu her ariannol fawr yn sgîl y fenter hon. Dangosodd hyn, ynghyd â llithriant a nodwyd ar gam cynnar ar raglenni gwella costau (CIPs) o ryw £1.4 miliwn (sy'n enghraifft o achos gorau posibl yn ystod 6 mis, o gofio'r nod i gyflawni £59 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn) bwysau ariannol posibl yn ystod y flwyddyn o fwy na £44 miliwn yr oedd angen ei reoli os nad oedd nifer sylweddol o ymddiriedolaethau'r GIG lleol yn mynd i dorri eu dyletswyddau mantoli'r gyllideb. (Arddangosyn 4 drosodd).

**23** Er y gallai amrywiaeth o heriau lleol penodol ddod i'r amlwg yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol, nodir yn gyson bellach bod costau ynni cynyddol yn bwysau ychwanegol i ymddiriedolaethau eu rheoli. Bydd effaith wirioneddol y costau hyn yn amlwg yn amrywio yn gymesur â nifer o ffactorau, yn bennaf y gallu i gyfyngu ar ddefnydd, argaeledd cyfleoedd i wella neu leihau costau yn ystod y flwyddyn a chyflwr ariannol cyffredinol yr ymddiriedolaeth ei hun. Mae hefyd yn bosibl, ar ryw adeg yn y dyfodol, y gall prisiau ynni ostwng eto ond ar hyn o bryd, mae ymddiriedolaethau'n amcangyfrif bod yr effaith ar gyfer 2005/2006 yn cyfateb i £9 miliwn ledled Cymru.

**24** Hanner ffordd drwy'r flwyddyn, roedd y mwyafrif o'r BILlau yn rhagweld eu bod yn disgwyl cyrraedd eu terfyn adnoddau. Y prif eithriadau oedd Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe a Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf, gyda'r cyntaf yn rhagweld gorwariant o bron £5 miliwn a'r olaf yn rhagweld tanwariant ar lefel debyg. Ar yr un pryd, roedd Comisiwn Iechyd Cymru yn rhagweld diffyg ar ddiwedd o flwyddyn o bron £20 miliwn.

**25** Erbyn mis Tachwedd 2005 (mis 8), ni chafwyd newid sylweddol yn y sefyllfa ragweledig, yn gyffredinol, ar gyfer y GIG yng Nghymru o gymharu â'r hyn a nodwyd ddeufis ynghynt. Rhagwelodd 9 ymddiriedolaeth, 2 BILl a'r Comisiwn y byddent yn torri eu dyletswyddau ariannol statudol yn ystod 2005/2006. Roedd y diffyg cyffredinol a ragwelwyd gan gyrff GIG lleol a'r Comisiwn yn agosáu at £39 miliwn (ar ôl addasu ar gyfer sefyllfa gytûn Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro ac ar ôl ystyried £10 miliwn o gymorth strategol a roddwyd i'r Comisiwn). Ar yr adeg hon, roedd bron pob ymddiriedolaeth yn cynnwys eu hamcangyfrifon o effaith Agenda ar gyfer Newid a gwelwyd rhai symudiadau sylweddol yn eu sefyllfa ragweledig ar ddiwedd y flwyddyn. (Arddangosyn 5 drosodd).

Arddangosyn 4: Her ariannol Ymddiriedolaethau'r GIG ar gyfer 2005/2006

| Ymddiriedolaeth y GIG | Sefyllfa ragweledig mis 6 (ac eithrio amcangyfrif yr Agenda) £000 | Yn ogystal ag amcangyfrif diffyg yr Agenda £000 | Yn ogystal â llithriant CIPs a nodwyd £000 | Her ariannol sydd ar ddod ym mis 6 £000 |
|---|---|---|---|---|
| BBro Morgannwg | 0 | (2,600) | 0 | (2,600) |
| Caerdydd a'r Fro | (1,619) | (4,000) | 0 | (5,619) |
| Sir Gaerfyrddin | (4,350) | (1,400) | (87) | (5,837) |
| Ceredigion a Chanolbarth Cymru | (838) | (600) | 0 | (1,438) |
| Conwy a Sir Ddinbych | (4,869) | (1,080) | 0 | (5,949) |
| Gofal Iechyd Gwent | (524) | (4,500) | 0 | (5,024) |
| Gogledd-Ddwyrain Cymru | 0 | (789) | 0 | (789) |
| Gogledd Morgannwg | (400) | (1,600) | (700) | (2,700) |
| Gogledd-Orllewin Cymru | 703 | (1,000) | 0 | (297) |
| Sir Benfro a Derwen | (495) | (1,363) | (122) | (1,980) |
| Pontypridd a'r Rhondda | 0 | (1,000) | 0 | (1,000) |
| Abertawe | (946) | (1,800) | 0 | (2,746) |
| Felindre | 0 | tbc | (500) | (500) |
| Ambiwlans Cymru | (4,276) | (3,800) | 0 | (8,076) |
| Cyfanswm | (17,614) | (25,532) | (1,409) | (44,555) |

**26** Fel y nodwyd ym mharagraff 25 uchod, roedd y newid cyffredinol mwyaf sylweddol i sefyllfa ariannol ragweledig BILlau a'r Comisiwn rhwng mis Medi a mis Tachwedd yn adlewyrchu'r £10 miliwn o gymorth strategol a roddwyd i'r Comisiwn. (Arddangosyn 6 drosodd).

**27** Mae'r rhagolwg o nifer o gyrff y GIG yn torri dyletswyddau ariannol statudol yn ystod 2005/2006 yn amlwg yn fater sy'n peri pryder ar gyfer atebolrwydd ariannol GIG Cymru a'r broses o'i lywodraethu. Ar ben hyn, os na fydd y rhagolygon presennol yn gwella'n sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn, bydd heriau ariannol heb eu datrys o 2005/2006 yn ychwanegu at y pwysau disgwyliedig ar gyfer 2006/2007.

**28** Fel gydag unrhyw sefyllfa o ddiffyg, mae cynnal hylifedd yn bryder allweddol. Er gwaethaf sefyllfa ariannol cyrff unigol, mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn fodlon bod digon o arian parod ar gael o fewn system y GIG i gyflawni ymrwymiadau dyddiol cyrff lleol y GIG. Defnyddir proses froceriaeth i reoli'r sefyllfa.



Arddangosyn 5: Sefyllfa ragweledig Ymddiriedolaethau'r GIG ym mis 8 o gymharu â mis 6

| Ymddiriedolaeth GIG | Alldro rhagweledig mis 6 fel y nodwyd mewn ffurflenni monitro £000 | Alldro rhagweledig mis 8 £000 | Symudiadau o ran rhagolygon diwedd y flwyddyn rhwng mis 8 a mis 6 £000 |
|---|---|---|---|
| Bro Morgannwg | 0 | 0 | 0 |
| Caerdydd a'r Fro | (1,619) | (1,619) | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | (4,350) | (5,750) | (1,400) |
| Ceredigion a Chanolbarth Cymru | (1,438) | (1,399) | 39 |
| Conwy a Sir Ddinbych | (4,869) | (4,869) | 0 |
| Gofal Iechyd Gwent | (5,724) | (5,000) | 724 |
| Gogledd-Ddwyrain Cymru | 0 | 0 | 0 |
| Gogledd Morgannwg | (2,000) | (1,854) | 146 |
| Gogledd-Orllewin Cymru | (297) | (220) | 77 |
| Sir Benfro a Derwen | (495) | (2,336) | (1,841) |
| Pontypridd a'r Rhondda | 0 | 0 | 0 |
| Abertawe | (2,746) | (2,746) | 0 |
| Felindre | 0 | 0 | 0 |
| Ambiwlans Cymru | (8,076) | (4,750) | 3,326 |
| Cyfanswm | (31,614) | (30,543) | 1,071 |

Troednodyn:

Mae ffigurau mis 6 a ddangosir uchod yn cynnwys y diffyg amcangyfrifedig ar gostau'r Agenda, yn gyffredinol. Yn Arddangosyn 4, dangosir y diffygion amcangyfrifedig o ran yr Agenda ar wahân.

## Dengys arwyddion presennol y bydd y sefyllfa yn mynd yn llawer anos i GIG Cymru yn ystod 2006/2007

29 Yn fwy diweddar, mae cyrff y GIG wedi cwblhau eu rhagolygon diwedd blwyddyn fel ym mis Rhagfyr 2005 (mis 9). Dengys y rhain fod y sefyllfa gyffredinol wedi gwella o'i chymharu â rhagolygon misoedd blaenorol ond mae'r alldro rhagweledig ar gyfer GIG Cymru ac yn cynnwys y Comisiwn ar gyfer 2005/2006 yn dal i agosáu at ddiffyg o ryw £32 miliwn.

30 Er bod nifer o ragolygon wedi parhau yn gymharol gyson yn ystod y flwyddyn, nododd rhai cyrff unigol y GIG iddynt weld rhai newidiadau sylweddol iawn. Er y bydd rhai newidiadau yn adlewyrchu canlyniadau'r archwiliad agos iawn sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o sefyllfaoedd cyrff unigol a chymunedau iechyd wrth agosáu at ddiwedd y flwyddyn, mae eraill yn cwestiynu effeithiolrwydd prosesau rheoli ariannol a gallu rhai cyrff i ragweld yn gywir.

Arddangosyn 6: Rhagolwg BILlau a'r Comisiwn ar gyfer mis 8 o gymharu â sefyllfa mis 6

| Comisiynydd | Alldro rhagweledig mis 6 £000 | Alldro rhagweledig mis 8 £000 | Symudiadau o ran rhagolygon diwedd y flwyddyn rhwng mis 8 a mis 6 |
|---|---|---|---|
| BILl Caerdydd | (1,000) | 0 | 1,000 |
| BILl Bro Morgannwg | (250) | 0 | 250 |
| BILl Merthyr Tudful | 1,350 | 632 | (718) |
| BILl Rhondda Cynon Taf | 5,000 | 4,250 | (750) |
| BILl Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 |
| BILl Caerffili | (216) | 0 | 216 |
| BILl Trefynwy | 0 | (285) | (285) |
| BILl Casnewydd | (206) | 0 | 206 |
| BILl Tor-faen | 0 | 0 | 0 |
| BILl Sir Gaerfyrddin | 0 | 0 | 0 |
| BILl Ceredigion | 199 | 199 | 0 |
| BILl Sir Benfro | 0 | 0 | 0 |
| BILl Powys | 0 | 0 | 0 |
| BILl Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0 | 0 |
| BILl Castell-nedd Port Talbot | 34 | 23 | (11) |
| BILl Abertawe | (4,692) | (4,692) | 0 |
| BILl Conwy | 0 | 0 | 0 |
| BILl Sir Ddinbych | 0 | 0 | 0 |
| BILl Sir y Fflint | 0 | 0 | 0 |
| BILl Gwynedd | 0 | 0 | 0 |
| BILl Wrecsam | 0 | 0 | 0 |
| BILl Ynys Môn | 0 | 0 | 0 |
| Y Comisiwn | (19,938) | (9,952) | 9,986 |
| Cyfanswm | (19,719) | (9,825) | 9,894 |



31 Fel gyda llawer o sefydliadau, bu mesurau anghylchol i gefnogi'r sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn yn nodwedd o fewn GIG Cymru dros nifer o flynyddoedd ac maent yn debygol o barhau yn y dyfodol fel elfen reolaidd o reoli ariannol. Fodd bynnag, ar ryw bwynt, ceir perygl y gall y mesurau anghylchol gael effaith andwyol ar gynllunio ariannol cyffredinol.

32 Ar gyfer 2005/2006, mae ymddiriedolaethau a BILlau wedi nodi mesurau ariannol anghylchol neu wedi bod yn eu derbyn i gynorthwyo'r sefyllfa flynyddol gyffredinol. Fel ym mis 6, roedd symiau o'r fath yn agosáu at gyfanswm o £10 miliwn a gall y ffigur hwn godi erbyn diwedd y flwyddyn. Nid yw'n glir i ba raddau y mae'r mesurau anghylchol hyn yn gysylltiedig â gwariant anghylchol. Fodd bynnag, os canfyddir bod cyfran o ymrwymiadau rheolaidd cyrff y GIG yn anghylchol yn barhaus, daw'r dasg rheoli ariannol sy'n ofynnol bob blwyddyn yn anos, yn arbennig os yw lefel y mesurau blaenorol yn anghynaliadwy neu os na fyddant ar gael yn y dyfodol.

33 Y cynnydd cyffredinol yn nyraniad dewisol y Gwasanaethau Ysbyty a'r Gwasanaethau Iechyd Cymunedol ar gyfer 2006/2007 yw 4.5%. Ar ben y cynnydd cyffredinol hwn (sy'n cynnwys cynnydd ar gyfer eitemau na thelir amdanynt uwchlaw'r gyfradd chwyddiant cyffredinol), sicrhawyd arian penodol ar gyfer gweithredu'r Contract Meddygon Ymgynghorol ac ar gyfer cyflawni targedau amseroedd aros 2006/2007.

34 Ar hyn o bryd, mae cyrff y GIG yn asesu effaith gyffredinol dyraniad 2006/2007 a phwysau gwariant yn y dyfodol o fewn eu cylchoedd cynllunio cyllideb. O dan delerau SCEPs a roddwyd ar waith yn ddiweddar, mae'n ofynnol i bedair ymddiriedolaeth ad-dalu eu benthyciad yn ystod 2006/2007 sy'n cyfateb i ryw £9 miliwn. Mae gan BILlau hefyd ymrwymiadau broceriaeth adnoddau ad-daladwy o bron £5 miliwn yn ystod 2006/2007.

35 Bydd rheoli unrhyw ddiffygion a ddygwyd ymlaen o 2005/2006, ynghyd ag unrhyw bwysau newydd ar gyfer 2006/2007 ac, mewn rhai achosion, gan ddarparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau neu froceriaeth adnoddau yn ychwanegu at yr her rheoli ariannol ar gyfer GIG Cymru.

36 Yn ystod blynyddoedd diweddar, mae ymddiriedolaethau wedi rheoli llawer o'r pwysau drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys gwella costau, lleihau costau a chynhyrchu incwm. Mae bron yn sicr y bydd angen mesurau pellach a mesurau mwy sylweddol i sicrhau na fydd gwariant, ar y cyfan, yn fwy na'r incwm. Ni fydd lefel y mesurau pellach sydd eu hangen i fantoli'r gyllideb o fewn GIG Cymru yn hysbys hyd nes y bydd cyrff iechyd lleol wedi cwblhau eu cylchoedd cynllunio cyllideb ar gyfer 2006/2007. Yn ein barn ni, mae'n annhebygol y bydd yr ymagweddau traddodiadol y cyfeirir atynt uchod yn effeithiol wrth gyflawni'r gofyniad hwn yn llawn ac mae'n debygol y bydd nifer o gyrff y GIG yn dychwelyd i sefyllfa o 'adfer; neu'n dechrau 'adfer' am y tro cyntaf.

## Gellir cwestiynu pa un a fu cysylltiadau effeithiol rhwng cyfeiriad strategol y GIG yng Nghymru, y broses o weithredu cynlluniau lleol i gyfeirio adnoddau yn well yn y tymor canolig i gydfynd â gofynion gwasanaeth (SCEPs) a threfniadau'r Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid blynyddol (SaFF)

37 Mae gan y GIG yng Nghymru gyfeiriad clir ar gyfer y dyfodol yn 'Cynllun Oes', ond mae'r angen i fynd i'r afael ag anawsterau yn y byrdymor yn ffactor cyfyngol wrth alluogi'r GIG yng Nghymru i ystyried yr hyn sy'n ofynnol i ddatrys yr anawsterau sylfaenol ar sail gyfunol a chynaliadwy. Felly, gallai'r angen i fodloni gorchmynion ariannol byrdymor heb strategaethau ariannol cysylltiedig

sydd wedi eu prisio'n llawn rwystro'r graddau y gellir cyflawni'r bwriadau strategol hyn yn sylweddol a chyflymder y broses honno.

**38** Mae ymddiriedolaethau sydd wedi bod yn adfer eu hunain yn ariannol yn ystod blynyddoedd diweddar wedi cynhyrchu SCEPs, gyda'u partneriaid cymuned iechyd, i fantoli'r gyllideb ac adfer gwasanaethau dros gyfnod penodol. Mewn rhai achosion, mae'r SCEPs hyn hefyd wedi cynnwys ad-dalu benthyciadau, unwaith y cyrhaeddir sefyllfa gytbwys ac y cynhyrchir gwarged digonol. Mae'r SCEPs hyn wedi cynnwys ystod o fentrau sy'n gofyn am gamau gweithredu gan ymddiriedolaethau neu BILlau unigol (e.e. pennu targedau gwella costau a'u cyflawni) a chamau gweithredu cyfunol gan y gymuned iechyd (e.e. mynd i'r afael â lefelau o Oedi wrth Drosglwyddo Gofal). Mewn rhai achosion, awgrymodd y cam terfynol gamau gweithredu i'w cymryd ar sail ranbarthol.

**39** O'n hadolygiad o rai SCEPs sydd eisoes yn bodoli, mae'n amlwg nad yw cynlluniau tymor canolig wedi cyflawni eu hamcanion yn llawn. Mae hyn o ganlyniad i nifer o ffactorau sy'n cynnwys tybiaethau ynghylch lefel y cynnydd mewn dyraniadau yn ystod y cyfnodau a gwmpesir gan yr SCEPs, effaith ariannol lawn mentrau megis Agenda ar gyfer Newid, nad oeddent yn hysbys ar y pryd, a hefyd amseru a chymhlethdod newidiadau arfaethedig yn arbennig ar lefel gymunedol a rhanbarthol. Mae'r ffaith nad yw tybiaethau a chyflawniad yn cyd-fynd yn cwestiynu pa mor realistig oedd rhai SCEPs pan gytunwyd arnynt.

**40** Mae'r SaFF blynyddol yn ddull pwysig o egluro blaenoriaethau gweinidogion a phennu targedau gweithredol ar gyfer eu cyflawni. Ond mae angen i ddull yn ystod y flwyddyn fod ar waith yn ddigon cynnar yn y flwyddyn er mwyn bod yn effeithiol. Mewn llawer o achosion, ni chytunwyd ar SaFFs ar gam cynnar. Ar gyfer 2005/2006, cymeradwywyd y mwyafrif ohonynt tra'n cydnabod bod risgiau ariannol sylweddol yn parhau heb eu datrys. Dangosir crynodeb o statws SaFFs ledled Cymru yn Arddangosyn 7.

**41** Cyhoeddwyd y ddogfen *Annual Priorities and Planning Guidance for 2006/2007 Service and Financial Frameworks* yn ddiweddar gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn bellach yn darparu cysylltiadau clir rhwng y strategaeth gyffredinol ar gyfer y GIG, sef 'Cynllun Oes' a blaenoriaethau a gofynion blynyddol cyrff lleol y GIG. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn edrych y tu hwnt i 2006/2007 ac yn darparu cadarnhad cynnar o'r targedau i'w cyflawni ar gyfer 2007/2008 er mwyn cynorthwyo gyda chynllunio tymor canolig, tra'n cysoni â chasgliad y cyfnod fframwaith cyntaf o fewn 'Cynllun Oes'. Ar gyfer 2006/2007, mae'r amserlen ar gyfer cytuno ar SaFFs yn nodi'n glir bod disgwyl i bob un fod ar waith erbyn 31 Mawrth 2006.

**42** Fel y soniwyd uchod, mae'n debygol y bydd nifer o gymunedau iechyd yn dechrau adfer yn ariannol neu'n dychwelyd i sefyllfa o'r fath ar ddechrau blwyddyn ariannol 2006/2007. Mae Comisiwn Iechyd Cymru hefyd yn profi anawsterau sylweddol wrth baratoi SCEP i ddatrys ei broblemau ariannol sylfaenol. *Yn fy adroddiad Cyllid GIG Cymru 2005*, nodais fod angen i'r Comisiwn gytuno ar SCEP fel mater o flaenoriaeth. Mae'n bryder na chwblhawyd hyn eto a bod cynigion cynharach bellach yn cael eu hailystyried yng nghyd-destun dyraniad refeniw 2006/2007.

**43** Efallai fod angen SCEPs pellach yn awr, i gwmpasu cyfnodau anhysbys, hyd yn hyn, mewn rhai cymunedau iechyd. Bydd yn bwysig i Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff lleol y GIG, fel rhan o'r broses ar gyfer eu paratoi, ddeall yn llwyr y rhesymau dros fethiannau blaenorol o fewn cymunedau iechyd perthnasol a'u hystyried. Er mwyn sicrhau na fydd ffactorau o'r fath yn ailgodi, dylid darparu canllawiau pellach i gymunedau iechyd i'w cefnogi wrth gynhyrchu cynlluniau realistig i fantoli'r gyllideb ac adfer gwasanaethau.



Arddangosyn 7: Statws 'SaFF' ym mis Ionawr 2006

| Cymuned Iechyd | Dyddiad cymeradwyo | A fantolwyd y gyllideb? | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Ceredigion | 17/06/2005 | Naddo | Fe'i cymeradwywyd gyda risg ariannol weddilliol o £1.5 miliwn dros ben |
| Sir Benfro | 17/06/2005 | Naddo | Fe'i cymeradwywyd gyda risg ariannol weddilliol o £2.4 miliwn dros ben |
| Castell-nedd Port Talbot | 17/06/2005 | Naddo | Fe'i cymeradwywyd gyda risg ariannol weddilliol o £1 filiwn dros ben |
| Powys | 17/06/2005 | Do | Dim |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 21/06/2005 | Naddo | Fe'i cymeradwywyd gyda risg ariannol weddilliol o £1 filiwn dros ben |
| Abertawe | 08/07/2005 | Naddo | Fe'i cymeradwywyd gyda risg ariannol weddilliol rhwng £2.3 miliwn a £4.3 miliwn dros ben |
| Gogledd-Ddwyrain Cymru | 21/07/2005 | Naddo | Yn destun gwaith paratoi SCEP |
| Conwy a Sir Ddinbych | 21/07/2005 | Naddo | Yn destun gwaith paratoi SCEP |
| Gogledd-Orllewin Cymru | 21/07/2005 | Naddo | Yn destun gwaith paratoi SCEP |
| Gwent | I'w gadarnhau | Naddo | Fe'i cymeradwywyd gyda risgiau ariannol gweddilliol dros ben |
| Ymddiriedolaeth Felindre a BILl Blaenau Gwent | 11/10/2005 | Aneglur | Cydnabuwyd risgiau ariannol yn ystod y flwyddyn yn y llythyr cymeradwyo ond nis meintolwyd |
| Ymddiriedolaeth Pontypridd a'r Rhondda a BILl Rhondda Cynon Taf | 21/10/2005 | Aneglur | Cydnabuwyd risgiau ariannol yn ystod y flwyddyn yn y llythyr cymeradwyo ond nis meintolwyd |
| Ymddiriedolaeth Gogledd Morgannwg a BILl Caerffili | 24/10/2005 | Aneglur | Cydnabuwyd risgiau ariannol yn ystod y flwyddyn yn y llythyr cymeradwyo ond nis meintolwyd |
| Sir Gaerfyrddin | 08/11/2005 | Naddo | Fe'i cymeradwywyd gyda risg ariannol weddilliol o £4.3 miliwn |

44 Yn fy adroddiad 2005, nodais hefyd y gwahaniaethau mewn lefelau arian ychwanegol a ddarparwyd i ardaloedd gwahanol yng Nghymru a'r problemau ariannol hirsefydlog a oedd yn bodoli, yn arbennig yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Yn dilyn hyn, argymhellodd Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol fod angen mynd ar drywydd camau gweithredu mwy radical ac arloesol er mwyn gallu darparu gwasanaethau derbyniol i gleifion o fewn terfynau ariannu dyranedig.

45 Nodaf fod amrywiaeth o gamau gweithredu yn mynd rhagddynt yn y rhanbarthau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru ac yn Ne-Ddwyrain Cymru a fydd yn cwmpasu archwiliadau sylfaenol o'r ffyrdd y darperir gwasanaethau. Deallaf y bydd y rhan fwyaf o'r adolygiadau hyn yn cyflwyno adroddiadau ffurfiol o fis Ebrill 2006 ymlaen. Nodaf hefyd fod Adolygiad Townsend o ddulliau dyrannu arian y GIG yn bwriadu cyflwyno adroddiad yn ystod gwanwyn 2006.

46 Mae hyn ar ôl y dyddiad y mae SCEPs diwygiedig yn ofynnol gan y cymunedau iechyd hynny a fydd yn adfer o 2006/2007 ac ar gyfer cytuno ar gynlluniau gwasanaeth a chyllid blynyddol (SaFFs). Fodd bynnag, deallaf fod trefniadau ar waith er mwyn i ganlyniadau'r adolygiadau gwasanaeth gael eu hymgorffori o fewn y broses SCEP. Yn dilyn hyn, bydd angen paratoi cynlluniau manwl cadarn er mwyn eu cyflwyno ar fyrder a rheoli perfformiad gweithredu gan roi sylw clir i atebolrwydd am gyflawni.

47 Bydd hefyd yn hollbwysig i'r fframwaith a roddwyd ar waith, tra'n cynnal atebolrwydd am ddarparu gwasanaeth a chyllid effeithiol, fod yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer diwygiadau i'r SCEPs a allai godi yn sgîl newidiadau mewn polisi neu ganlyniadau adolygiadau cenedlaethol a rhanbarthol yn y dyfodol.